

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala: Nos Iau 3ydd o Ionawr 2013

911. Croeso ac Ymddiheuriadau: Croesawyd pawb i cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd gan y Maer Miss Shan Ranson. Yn bresennol – Shan Ranson, Dilwyn Jones, John Williams, Sharon Evans, Ivora Jones, Edith Roberts, Dorothi Evans, Alun Price, Islwyn Pritchard- Jones, Eluned Jones ac Cyng Sir Dilwyn Morgan. Derbynwyd ymddiheuriadau gan Eifion Roberts a Dilys Evans.

912. Datgan Buddiant

Nid oedd neb yn datgan buddiant.

913. Cadarnhau Cofnodion 13 o Ragfyr 2012.

Darllenwyd ac ychwanegwyd angen i'r clerc ysgrifennu at Cyngor Gwynedd ac y Bwrdd Iechyd am wybodaeth ynglun gofal ysbaid a gofal nyrzio yr ardal.

914. Materion yn codi o'r cofnodion:

Partneriaeth Penllyn – y cydlynnydd wedi gofyn i ni drafod yr angen am 2 cyfarwyddwr o'r Cyngor Tref er mwyn iddynt symud ymlaen i ceisio sefydlu cwmni er mwyn cael ceisio am grantiau ac yn y blaen, Alun Price a Dorothi Evans yn fodlon. Y Clerc i ofalu cysylltu ac aelodau absenol i rhoi cynnig iddynt hefyd.

Gofal Ysbaid – derbynwyd llythyr gan Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, paswyd i wahodd aelod o'r bwrdd i ymhaelaethu ac hefyd aelod o Cyngor Gwynedd at cyfarfod nesaf os yn bosibl.

Gor-yrru Heol Pensarn – derbynwyd ffigurau o'r arolwg. Anfon yn crybwyll osod yr offer nes at Stryd y Fron tro nesaf yn hytrach nac ar gyfer yr orsaf heddlu.

915. Materion yr Heddlu:

Gohebiaeth am ymgyrch cofrestru beiciau gyda cyfeiriadau i'r we.

Gohebiaeth gan yr orsaf leol bod y mater o ddifrod i'r cysgodfa ger y Bull wedi eu cau a'u ffeilio. Gwnaed sylwadau bod presenoldeb heddweision ac heddlu ategol ar y strydoedd a diolchwyd i cyng Sir Dilwyn Morgan am helpu pwyso ar y mater yma dros trigolion y dref.

916. Materion Cynghorydd Sir

Cafwyd adroddiad gan Dilwyn Morgan er gwybodaeth bod yn edrych ymysg pethau eraill ar parcio yn Bro Eryl, Neuadd Buddug ac yr Ysgol Gydol Oes. Wedi derbyn llythyr yn dweud bydd gohebiaeth i ddod am Co-operative mawr i'w adeiladu ar y stad diwidianol, dwedodd bod y wasg wedi eu holi eisioes ac mae wedi dweud wrthynt bydd angen ymgynghoriad y dref. Hefyd llythyr am ymgynghoriad i gau swyddfeydd cofrestru yn cynwys y Bala, mae am gwrthwynebu.

Gofynwyd i Dilwyn Morgan holi am sefyllfa y tawelyddion yn Heol Castell oes dyddiadau cychwyn? Os oes cyllideb gan yr Heddlu am arwyddion flachio yn y dyfodol agos? Pryd fydd y lefelau troedffordd yn cael sylw ger yr arosfa bws wrth cofgolofn Tom Ellis?

917. Materion Cynllunio: Derbynwyd llythyr gan cwmni sydd yn gweithio ar ran Y Co-Operative, byddant yn anfon atom gyda hyn gyda manylion am eu gobeithion o adeiladu siop fawr ar gyrion y dref. Aros am rhagor o wybodaeth.

918. Materion Cyllid:

Cymeradwyd i dalu yr bil Vodafone, a cyflog y clerc. (Cyfarchion Nadolig yn y Cyfnod i'w dalu o cronfa y maer) Er cafwyd cynnig dylai y praesept cael eu godi ni cafwyd eilydd.

Cynnigwyd a paswyd yn unfrydol i gadw y praesept fel y mae. Paswyd y rhestr asedau i Islwyn Pritchard Jones. Mae y baneri wedi cael trael tywydd ac diolch i John Williams ac Islwyn am addo eu tynnu hwy lawr ac bydd angen gosod rhai newydd yn y gwanwyn.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc

919. Gohebiaeth:

Cyngor Gwynedd – Dogfen ymgynghoriad ar ddarpariaeth y Gwasanaeth Cofrestru yn Nhwynedd – anfon ein gwrthwynebiad
Urdd Gobaith Cymru – llythr cais gan y cyfarwyddwr at Eisteddfod at 2014 ym Meirionnydd – edrych arno yn Chwefror gyda ceisiadau
Victim Support - edrych Chweror
Grwp Mynediad Meirionnydd – edruch Chwefror
Un llais Cymru - Rhaglen Hyfforddiant 2013
Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru – copi o ateb cafodd Dafydd Elis Thomas AC
Partneriaeth Penllyn- copi cofnodion cyfarfod Rhagfyr
Adroddiad Blyneddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – copiau ac adroddiadau blaenorol ar gael a y we.

920.Materion Brys

Derbynwyd galwad ffon gyda cais am cysgodfa bws ger cofgolofn Tom Ellis. Trafodwyd hyn mewn cyfarfod gyda cyng sir a dref a swyddogion Gwynedd rhai misoedd yn nol ac y farn oedd nad oedd y safle yn addas.
LLythr gan y clerics i ddweud na fydd yn adnewyddu cytundeb gwaith pan ddaw i ben, felly hysbyseb i'r wasg lleol.
Angen trefnu cyfarfod ychwanegol yn Chwefror i drafod y ceisiadau arianol.

The Mayor welcomed everyone to the first meeting of the New Year. Regarding respite care and other health matter we shall invite representatives from the council and health board to come talk to us, next month if possible. The Gwynedd councillor Dilwyn Morgan has been busy for us and amongst other things is looking into parking at Bro Eryl. A letter has been received stating a possibility of a large Co-operative being built on the industrial estate, a public consultation is suggested. Will reply to the Gwynedd Council that we oppose closure of the Bala Registration outstation.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc